**CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD AR Y 9FED O FAI,2022 YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, LLANDDOGED.**

**DATGANIAD DERBYN SWYDD**

Yn dilyn canlyniadau'r etholiadau ar y 5ed o Fai arwyddodd holl aelodau'r Cyngor Cymuned y ffurflen 'Datganiad Derbyn Swydd' ar gychwyn y cyfarfod.

**PRESENNOL**

Cyng. Arwel L. Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Eifion Williams Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Anwen Jones,

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

**CADARNHAU'R COFNODION BLWYDDYN DIWETHAF**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 24ain, Mai, 2021.

**PENODI CADEIRYDD**

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo eu i benodi Cyng John Owen yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022/23.

**PENODI IS-GADEIRYDD**

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi Cyng. Alun Morris yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

**PENODI IS BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Pasiwyd a chytunwyd i'r canlynol barhau ar yr Is-bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus :- Cyng Alun Morris, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. John Owen, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Anwen Jones.

**CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR CYMUNED A'R CYFARFODYDD A PHWYLLGORAU LLYWODRAETHWYR YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**

Derbyniwyd neges gan Cyng. Anwen Jones ei bod yn fodlon parhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar bwyllgorau'r Corff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddoged. Diolchwyd a chadarnhawyd i benodi Cyng Anwen Jones.

**COD YMDDYGIAD**

Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n safonau cywir o ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr ac aelodau i gyd yn cytuno i gydymffurfio a'r Cod fel unigolyn.

**COFRESTR BUDDIANNAU**

Cwblhawyd aelodau'r Cyngor y Gofrestr Buddiannau am y flwyddyn 2022/23.

**LWFANSAU AELODAU**

Derbyniwyd llythyr wedi ei llofnodi gan oll o'r Cynghorwyr yn nodi nad ydynt am dderbyn costau na thaliadau yn rhinwedd ei swyddi.

Arwyddwyd ……………………………… (Cadeirydd) Dyddiad ………………………………